Medr

Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

This document is also available in English |
Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg

# Cefnogi gwrth-hiliaeth mewn addysg uwch: canllawiau a dyraniadau 2026/27

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | 13 Gorffennaf 2026 |
| **Cyfeirnod:** | Medr/2026/33 |

| | |
|---|---|
| **At:** | Benaethiaid prifysgolion yng Nghymru |
| **Ymateb erbyn:** | 12 Hydref 2026 ac 18 Hydref 2027 i em.cynhwysiant@medr.cymru |
| **Mwy o wybodaeth:** | Savanna Jones \| em.cynhwysiant@medr.cymru |
| **Thema:** | Gwrth-hiliaeth |


**Crynodeb:**

Mae’r cyhoeddiad hwn yn darparu canllawiau i gefnogi gwrth-hiliaeth mewn addysg uwch, a dyraniadau cyllid gwrth-hiliaeth, disgwyliadau o ran arian cyfatebol, a gofynion monitro ar gyfer 2026/27.



Rydym yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg ac yn Saesneg
We welcome correspondence in Welsh and in English
Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi
Corresponding in Welsh will not lead to delays.

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

## Cyflwyniad

1. Mae'r cyhoeddiad hwn yn rhoi canllawiau i gefnogi gwrth-hiliaeth mewn addysg uwch, ynghyd â dyraniadau cyllid gwrth-hiliaeth, disgwyliadau o ran arian cyfatebol, a gofynion monitro ar gyfer 2026/27.

2. Darparwyd y cyllid hwn yn wreiddiol yng nghylchlythyr CCAUC W22/05HE: Ymgynghoriad ar gyllid i gefnogi cydraddoldeb hiliol mewn addysg uwch i ymdrin â gwrth-hiliaeth a chefnogi newid diwylliant mewn addysg uwch, yn unol â datblygiadau polisi hil, mynediad a llwyddiant yng Nghynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol. Roedd y cyhoeddiad cychwynnol yn cynnwys amodau arian cyfatebol a'r disgwyliad i brifysgolion ennill dyfarniad siarter cydraddoldeb hiliol erbyn 2024/25. Cadarnhaodd pob prifysgol y cyflawniad hwn erbyn mis Ebrill 2025.

3. Dylid darllen y cyhoeddiad hwn ar y cyd â chylchlythyr CCAUC W23/06HE: Addysg uwch ddiogel a chynhwysol: cefnogi addysg cydraddoldeb ac amrywiaeth. Ym mis Hydref 2024 cyhoeddodd Medr ei ganllawiau ar gefnogi gwrth-hiliaeth mewn addysg uwch 2024/25 a osododd y cefndir ar gyfer y sector addysg uwch ac a ddilynwyd gan y cyhoeddiad canllawiau ar gefnogi gwrth-hiliaeth mewn addysg uwch 2025/26 ym mis Hydref 2025.

4. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i sicrhau Cymru Wrth-hiliol erbyn 2030. Yn 2024 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru fersiwn newydd o'r Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol i sicrhau cynnydd cyflym yn erbyn camau penodol, gan gynnwys camau'n gysylltiedig ag addysg drydyddol. Rydym yn disgwyl i brifysgolion ystyried y camau gweithredu hyn a chyfrannu atynt.

5. Rydym yn croesawu'r ffaith bod wyth prifysgol yng Nghymru yn parhau i wneud cynnydd yn erbyn eu cynlluniau gweithredu gwrth-hiliol, fel y'u datblygwyd drwy'r siarter cydraddoldeb hiliol. Mae'r siarter yn cefnogi'r broses o ddatblygu'n brifysgol wrth-hiliol. Rydym yn disgwyl i bob prifysgol barhau i gyflawni yn erbyn eu cynlluniau gweithredu ar gyfer y siarter yn 2026/27.

## Dyletswyddau a chyfrifoldebau Medr

6. Mae gan Medr ddyletswydd strategol i hyrwyddo cyfle cyfartal mewn addysg drydyddol, gan gynnwys y modd y mae hyn yn berthnasol i grwpiau tangynrychioledig a phobl â nodweddion gwarchodedig. Rhoddir esboniad manwl ym mharagraffau 8-11 Medr/2024/03.

7. Mae Medr wedi cyhoeddi ei gynllun strategol sy'n nodi ein hymrwymiad i weithio gyda Llywodraeth Cymru a'r sector i wneud cynnydd tuag at greu Cymru wrth-hiliol ac at sicrhau amgylcheddau dysgu a gwaith sy'n gynhwysol i bawb, waeth beth fo'u hunaniaeth. Mae cynllun gweithredol Medr hefyd yn egluro y byddwn yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru a darparwyr addysg drydyddol i gyfrannu at y Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol gan Lywodraeth Cymru, gan gynnwys: monitro cynnydd darparwyr addysg drydyddol yn erbyn cynlluniau gweithredu ac/neu ymrwymiadau siarter, a datblygu a chyhoeddi data monitro cydraddoldeb hiliol.

8. Ym mis Ebrill 2026 cyhoeddodd Medr ei amodau rheoleiddio sy'n cynnwys gofynion ar gyfer yr amod lles staff a dysgwyr. Fel rhan o'r rheoliad, mae'n rhaid i sefydliadau gynnal hunanwerthusiad a chyflwyno cynllun gweithredu lles dwy flynedd i Medr. Bydd amod cyfle cyfartal Medr yn dod i rym yn 2027/28. Er mwyn cyfrannu at fodloni'r gofynion hyn yn gysylltiedig â'r amod rheoleiddio, bydd disgwyl i brifysgolion barhau i gydymffurfio â'u hymrwymiadau gwrth-hiliaeth.

9. Cryfhaodd Diweddariad Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol gan Lywodraeth Cymru bwyslais y Llywodraeth ar arweinyddiaeth a grwpiau â blaenoriaeth. Disgwylir y bydd atebolrwydd am ymrwymiad prifysgolion i wrth-hiliaeth yn cael ei oruchwylio gan yr aelodau uwch priodol o staff (fel Dirprwy Is-Gangellorion) gyda chefnogaeth cyrff llywodraethu. Disgwylir i brifysgolion hefyd wella'u hymgysylltiad â chymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr, a'u cefnogaeth i'r cymunedau hynny.

## Pwrpas cyllid gwrth-hiliaeth

10. Mae'r cyllid hwn i atal anghydraddoldeb, mynd i'r afael â hiliaeth a chefnogi'r broses o ymwreiddio polisïau ac arferion gwrth-hiliol mewn prifysgolion. Mae'n cyfrannu at newid diwylliant ac at fodloni disgwyliadau'r Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol gan Lywodraeth Cymru.

11. Er bod y cyllid hwn wedi'i fframio o ran hil ac ethnigrwydd, dylai prifysgolion fabwysiadu dull cyfannol o gydnabod sut mae hil ac ethnigrwydd yn croestorri â nodweddion gwarchodedig a grwpiau a materion eraill o fewn cymdeithas, gan gynnwys trais, cam-drin ac aflonyddu ar sail hunaniaeth, llesiant ac iechyd meddwl, ffoaduriaid a cheiswyr lloches a chrefydd a chred, ymhlith eraill.

## Dyraniadau ac amodau cyllid ar gyfer 2026/27

12. Mae dyraniadau cyllid 2026/27:
    i. yn amodol ar ymrwymiad gan brifysgolion i sicrhau arian cyfatebol ar gyfer dyraniadau (fel mewn blynyddoedd cynt, ac fel y nodir yn y tabl cyllido isod);
    ii. yn defnyddio data myfyrwyr 2024/25 HESA sy'n seiliedig ar boblogaeth gofrestru safonol HESA, wedi'i ostwng i nifer yr unigolion, h.y. os bydd myfyriwr wedi cofrestru ar fwy nag un cwrs ni chaiff ond ei gyfrif unwaith);
    iii. yn defnyddio data myfyrwyr sy'n cynnwys yr holl gorff o fyfyrwyr: pob dull, lefel a domisil;
    iv. yn seiliedig ar ddata HESA 2024/25 sydd wedi'u dilysu gan y brifysgol;
    v. yn ôl ein harfer, mae data myfyrwyr y Coleg Brenhinol Cerdd a Drama wedi'u cynnwys yn nata a dyraniad Prifysgol De Cymru; ac
    vi. yn cael eu cyflwyno ar ffurf un taliad ym mis **Hydref 2026.** Os yw'r adroddiadau'n anfoddhaol neu'n gyfyngedig, rydym yn cadw'r hawl i adennill cyllid.

13. Dyma ein disgwyliadau ar gyfer defnyddio arian cyfatebol:
    i. na ddylai dyraniad Medr arwain at unrhyw ostyngiad yn yr adnoddau a ddarperir eisoes gan brifysgolion ar gyfer datblygiadau gwrth-hiliol, gan gynnwys eu hymrwymiad i sicrhau a dangos cynnydd ac ymrwymiad parhaus tuag at ennill eu hachrediad siarter;

ii. bod prifysgolion yn clustnodi adnoddau ychwanegol i gefnogi camau gwrth-hiliaeth, sy'n uwch na chyfanswm dyraniad Medr o £1m;

iii. lle caiff unrhyw weithgareddau neu wasanaethau gwrth-hiliaeth sy'n bodoli eisoes eu hariannu drwy gynllun mynediad a ffioedd neu o ffynonellau eraill yn 2026/27, ceir defnyddio'r cyllid a ddarperir gan Medr drwy'r canllawiau hyn neu drwy'r arian cyfatebol gwrth-hiliaeth cysylltiedig i brifysgolion er mwyn cynyddu darpariaeth y gweithgareddau a'r gwasanaethau hyn (mae cynlluniau mynediad a ffioedd yn parhau i fod yn weithredol yn 2026/27 nes bo'r broses gofrestru newydd ar gyfer cyfle cyfartal yn weithredol o 2027/28). Yn yr achos hwn, bydd yn rhaid i'r brifysgol gyfleu'n glir ym mhob adroddiad ac mewn unrhyw waith monitro cydraddoldeb hiliol, sut ac i ba raddau y mae'r cyllid hwn wedi gwella gweithgareddau a gwasanaethau, a gallai hynny fod yn destun archwiliad gennym ni;

iv. ceir defnyddio arian cyfatebol neu arian Medr i dalu costau tanysgrifiadau aelodaeth perthnasol, hyfforddiant wedi'i hwyluso'n allanol neu arbenigedd arall allanol;

v. rhaid i brifysgolion gyfrannu'n effeithiol at nodau a chamau gweithredu'r Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol;

vi. bod prifysgolion yn parhau i fod yn ymrwymedig i'r safonau a nodir yn y Siarter Cydraddoldeb Hiliol a'r camau yn eu cynllun gweithredu;

vii. bod prifysgolion yn cydweithredu'n effeithiol ar draws y sector trydyddol a chyda phartneriaid allanol, gan gynnwys rhai â phrofiad bywyd, i ddatblygu a rhannu dysgu ac ymarfer; a

viii. bod yr arian cyfatebol a dyraniad Medr yn arwain at gynyddu cynnydd a chyflymder y cynnydd tuag at ymdrin â hiliaeth, i ymwreiddio arferion gwrth-hiliaeth, gwella cydraddoldeb hiliol, a gweithio tuag at ddyfarniad siarter/parhau i gyflawni dyfarniad siarter.

14. Dyma ddyraniadau 2026/27:

| Sefydliad | Dyraniad Medr 2026/27 (gydag isafswm o £50K) £ | Arian cyfatebol y sector 2026/27 (dim isafswm) £ | 2026/27 Cyfanswm £ |
|---|---|---|---|
| Prifysgol De Cymru | 146,396 | 146,396 | 321,132 |
| Prifysgol Aberystwyth | 59,540 | 59,540 | 107,762 |
| Prifysgol Bangor | 70,765 | 70,765 | 147,660 |
| Prifysgol Caerdydd | 224,540 | 224,540 | 449,443 |
| Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant | 109,476 | 109,476 | 212,320 |
| Prifysgol Abertawe | 135,131 | 135,151 | 288,679 |
| Prifysgol Metropolitan Caerdydd | 87,420 | 87,420 | 155,896 |
| Prifysgol Wrecsam | 55,059 | 55,059 | 108,689 |
| Y Brifysgol Agored yng Nghymru | 111,653 | 111,653 | 208,420 |
| **Cyfanswm** | **1,000,000** | **1,000,000** | **2,000,000** |

## Adnoddau a gwybodaeth

15. Ym mis Gorffennaf 2023 cyhoeddodd Prifysgolion y DU Tackling racial harassment in higher education: progress since 2020 i adolygu effaith canllawiau 2020 ar sut mae prifysgolion yn mynd i'r afael ag aflonyddu hiliol mewn AU a sut y gallant wella ymhellach. Mae Prifysgolion y DU hefyd wedi cyhoeddi cyfres o adroddiadau ar newid y diwylliant ac ar grefydd a chred, gan fynd i'r afael â gwrthsemitiaeth ac Islamoffobia) i ddarparu canllawiau ymarferol er mwyn llywio ystyriaethau hiliol. Yn 2024, cyhoeddodd Prifysgolion y DU ac NUS y DU lythyr i'r sector yn amlinellu ei ymdrechion i fynd i'r afael â iaith casineb a hiliaeth, i leddfu ofn, i wella cysylltiadau cymunedol ac i amddiffyn rhyddid i lefaru.

16. Ym mis Mawrth 2024, lansiodd y Black Leadership Group Higher Education Anti-Racism Toolkit (HEART). Mae'n cynnwys cynllun deg pwynt i ymwreiddio gwrth-hiliaeth mewn systemau addysg uwch (Gan gynnwys strategaeth, addysgeg a phrofiadau myfyrwyr a staff). Gallai'r adnodd hwn fod yn ddefnyddiol i brifysgolion.

17. Mae Llywodraeth Cymru wedi datblygu matrics aeddfedrwydd fel offeryn hunanasesu sy'n gysylltiedig â Chynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol. Mae'r matrics aeddfedrwydd wedi'i gynnwys yn **Atodiad A** er gwybodaeth. Efallai y bydd prifysgolion yn gweld bod hwn yn adnodd defnyddiol wrth adolygu arweinyddiaeth a threfniadau llywodraethu a thrafod eu cynlluniau gweithredu lles staff a dysgwyr o 2026/27.

18. O fis Mai 2026 ymlaen mae Medr wedi ariannu AU Ymlaen i sefydlu cymuned ymarfer Cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant er mwyn cynorthwyo sefydliadau i gyflawni eu hymrwymiadau ac i rannu a phrofi arferion cadarnhaol, gan gynnwys arferion yn gysylltiedig â gwrth-hiliaeth.

## Cyflawniadau a monitro

19. Dylai gwybodaeth monitro a chyflawniadau ar gyfer 2026/27 adeiladu ar y cynlluniau ar gyfer 2024/25 a 2025/26 a gyflwynwyd i Medr, a bod yn seiliedig ar yr hyn a ddysgwyd o broses y siarter cydraddoldeb hiliol a chanlyniadau cynlluniau gweithredu, yn ogystal â phrofiadau staff a dysgwyr. Mae templed monitro wedi cael ei ddarparu yn **Atodiad B** a dylai'r dogfennau a anfonir atom gynnwys:
    i. Cynllun gweithredu gwrth-hiliaeth 2026/27 y brifysgol,
    ii. Templed monitro'r brifysgol, gan gynnwys cynnydd a chyflawniadau hyd at fis Gorffennaf 2027; a
    iii. Datganiad ariannu i roi cyfrif am ddyraniad Medr ac arian cyfatebol y brifysgol.

20. Os yw cynlluniau gweithredu'r prifysgolion yr un peth â'u cynlluniau gweithredu siarter cydraddoldeb hiliol, gallant gyflwyno cynllun gweithredu'r siarter er mwyn osgoi ail-wneud gwaith a lleihau'r baich o orfod adrodd yn ddiangen.

21. Os bydd Llywodraeth Cymru yn gosod disgwyliadau newydd ar addysg uwch neu'r sector trydyddol yn ystod y cyfnod cyllido, mae'n bosib y byddwn yn gofyn am friffiau gwybodaeth ychwanegol ac/neu'n gofyn fonitro ychwanegol.

## Dyddiadau monitro a chyflwyno ar gyfer cyllid ac adroddiadau 2026/27

22. Y dyddiad cyflwyno ar gyfer cynlluniau gweithredu gwrth-hiliaeth prifysgolion yw **Dydd Llun, 12 Hydref 2026**. Cyflwynwch i em.cynhwysiant@medr.cymru.

23. Dyddiad cyflwyno templed monitro 2026/27 yw **Dydd Llun, 18 Hydref 2027.** Dychwelwch y ddogfen fonitro wedi'i chwblhau (**Atodiad B)** i em.cynhwysiant@medr.cymru.

## Asesu effaith ein polisïau

24. Rydym wedi cynnal ymarfer sgrinio asesu effaith er mwyn helpu i ddiogelu rhag gwahaniaethu a hyrwyddo cydraddoldeb. Rydym yn rhagweld effaith gadarnhaol ar hil, rhyw, anabledd, oedran, crefydd a chred.

25. Buom hefyd yn ystyried effaith y polisi hwn ar y Gymraeg, a darpariaeth Gymraeg yn sector AU Cymru, a'r effeithiau posibl ar y nodau a geir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Cysylltwch ag em.cynhwysiant@medr.cymru am ragor o wybodaeth am asesiadau effaith cydraddoldeb.

## Rhagor o wybodaeth a dogfennau i'w cyflwyno

26. Am ragor o wybodaeth cysylltwch â Savanna Jones (savanna.jones@medr.cymru).

27. Cyflwynwch eich cynllun gweithredu gwrth-hiliaeth i em.cynhwysiant@medr.cymru erbyn **Dydd Llun, 12 Hydref 2026**.

28. Cyflwynwch eich templed monitro i em.cynhwysiant@medr.cymru erbyn **Dydd Llun, 18 Hydref 2027**.

Medr

Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

www.medr.cymru

2 Cwr y Ddinas
Stryd Tyndall
Caerdydd
CF10 4BZ

2 Capital Quarter
Tyndall Street
Cardiff
CF10 4BZ

Noddir gan
**Lywodraeth Cymru**
Sponsored by
**Welsh Government**